

Refeniw	Ystad y Goron yng Nghymru		Ystad y Goron Gyfan
	12 mis hyd at 31 Mawrth 2008 £miliwn	12 mis hyd at 31 Mawrth 2007 £miliwn	12 mis hyd at 31 Mawrth 2008 £miliwn
Trosiant	3.1	2.8	264.8
Cyfraniad gros	3.1	2.5	224.6
Gwarged referiaw	3.1	2.5	211.3


Eiddo	The Crown Estate Wales		The Crown Estate Total
	12 mis hyd at 31 Mawrth 2008 £miliwn	12 mis hyd at 31 Mawrth 2007 £miliwn	12 mis hyd at 31 Mawrth 2008 £miliwn
Gwerth eiddo	28.4	21.1	6,584

Trafodion eiddo	The Crown Estate Wales		The Crown Estate Total
	12 mis hyd at 31 Mawrth 2008 £miliwn	12 mis hyd at 31 Mawrth 2007 £miliwn	12 mis hyd at 31 Mawrth 2008 £miliwn
Buddsoddi cyfalaf	9.1	0.2	663.2
Derbyniadau cyfalaf	-	0.5	933.9

Refeniw fesul gweithgarwch

(Diwedd blwyddyn 31 Mawrth 2008) (£miliwn)


A Amaethyddiaeth	0.1
B Morol/Blaendraeth	1.2
C Mwyn	1.8
Cyfanswm	3.1



Gwerth eiddo fesul gweithgarwch

(Diwedd blwyddyn 31 Mawrth 2008) (£miliwn)

A Amaethyddiaeth	3.3
B Morol/Blaendraeth	21.5
C Mwyn	3.6
Cyfanswm	28.4



Gwybodaeth ariannol heb ei harchwilio yw hon.

£3.1m

£3.1m oedd y gwarged referiaw net o Ystad y Goron yng Nghymru, cynnydd o £11.5% dros yr un cyfnod y llynedd

1.5%

Mae'r gwarged referiaw net o Ystad y Goron yng Nghymru yn cynrychioli 1.5% o Ystad y Goron gyfan

£28.4m

£28.4 miliwn oedd cyfanswm gwerth eiddo Ystad y Goron yng Nghymru, cynnydd o 34.9% dros yr un cyfnod y llynedd

- Yn ystod y flwyddyn, prynwyd Marina Deganwy gan Ystad y Goron. Prydleswyd Marina Deganwy i Quay Marinas, a hwn yw'r marina cyntaf i fod yn fuddsoddiad uniongyrchol gan yr Ystad Forol. Mae marinas o bwys i'w cael yn ogystal yng Nghonwy a Phwllheli, ac mae gan Ystad y Goron hefyd fuddiannau ynddynt.
- Un ardal sy'n denu incwm yw Aberdaugleddau, sy'n cynnwys gweithgaredd porthladd, terfynellau'r lanfa a Marina Neyland.
- Mae arfordir sir Benfro yn cael ei reoli trwy ddwy brydles reoleiddio i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Chyngor Sir Penfro.
- Mae'r fferm wynt ar y môr gyntaf ar ddyfroedd Cymru yng Ngogledd Hoyle wedi bod yn gweithio ers 2003, gyda 30 o dyrbinau yn darparu digon o ynni ar gyfer 40,000 o gartrefi bob blwyddyn. Rhoddwyd caniatâd i ddau brosiect arall yng Ngwastadeddau'r Rhyl a Chefnenni Tywod Scarweather: mae'r gwaith adeiladu wedi dechrau ar Wastadeddau'r Rhyl, ac mae fferm wynt ar y môr Gwynt y Môr yn disgwyl am ganiatâd.
- Mae daliadau gwledig Ystad y Goron yng Nghymru'n dyddio'n ôl i'r 13eg ganrif. Maent yn cynnwys 10 ystad wledig gan gynnwys dros 3,770 acer (1,525 hectar) o dir amaethyddol a 66,500 acer (26,900 hectar) o dir comin Cymru.
- Mae Ystad y Goron yn berchennog hefyd ar 245,000 acer (99,000 hectar) o dir a ddefnyddir yn unig i gael mwynau: yr ydym yn prydlesu tri safle ar gyfer chwarelyddiaeth yn sir y Fflint a Gwynedd. Mae Ystad y Goron yn gyfrifol hefyd am awdurdodi cloddio am aur ac arian ar draws y DU.
- Trwy'r Gronfa Cymunedau Morol yr ydym yn cefnogi amrediad o brosiectau ymarferol sy'n cyfrannu at stiwardiaeth dda o gwmpas arfordir y DU. Yng Nghymru mae prosiectau'n amrywio o gyfleusterau newydd ar gyfer ymwelwyr yng Ngwarchodfa Adar RSPB Cymru yng Nghonwy, i brynu cwch i helpu'r gwaith o batrolio ardaloedd cadwraeth Aber Afon Teifi a Bae Ceredigion.

Gogledd Hoyle

Fferm wynt ar y môr Gogledd Hoyle ar arfordir gogledd Cymru lle ceir 30 o dyrbinau yn darparu digon o ynni ar gyfer 40,000 o gartrefi bob blwyddyn.



Marina Deganwy

Marina Deganwy yng Nghonwy, gogledd Cymru. Prynwyd Marina Deganwy, sydd â 165 o angorfeydd, gan Ystad y Goron ym mis Ionawr 2008. Fe'i prydlesir i Quay Marinas.

